Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Ymagweddau rhyngwladol at bontio teg

**Charlotte Morgan, Isabelle Carter, Helen Tilley, Tom Haines-Doran ac Emma Taylor-Collins**

Rhagfyr 2022

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus a'r broses o lunio polisïau eu gwella trwy gefnogi Gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a chymhwyso tystiolaeth annibynnol drylwyr ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli ac i nodi bylchau lle y mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, i gyrchu ac i ddefnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, i gynhyrchu, i werthuso ac i ddefnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol;
- Defnyddio'i waith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hybu dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth lywio a gwella gwasanaethau cyhoeddus a'r broses o lunio polisïau a chyfrannu at ddamcaniaethau mewn perthynas â llunio a gweithredu polisïau.

Trwy secondiadau, lleoliadau Doethuriaeth a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i ymgymryd ag ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk/cy/](http://www.wcpp.org.uk/cy/)

## Arianwyr Craidd

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), sef sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan bob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Cyd-destun | 6 |
| Diffiniadau o bontio teg | 8 |
| Ymagweddau at bontio teg | 15 |
| Llesiant a phontio teg i Gymru | 18 |
| Casgliad | 25 |
| Cyfeiriadau | 27 |
| Atodiad | 32 |

# Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno tystiolaeth ryngwladol ar ymagweddau at bontio teg ac yn archwilio p'un a ellir ystyried pontio teg yng Nghymru drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ddiweddaru ymchwil flaenorol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn y maes hwn. Mae'n gorffen drwy grynhoi gwersi allweddol ar gyfer mabwysiadu polisïau ar gyfer pontio teg i Gymru.

- Un canfyddiad allweddol yr adroddiad hwn yw nad oes diffiniad a dderbynnir yn gyffredinol o bontio teg a bod llawer iawn o drafod ynghylch y term. Mae hyn wedi arwain at sawl ymagwedd wahanol tuag at ei fabwysiadu. Yn yr un modd, nid oes ymagwedd 'un maint i bawb' at bontio teg, sydd angen ei lunio yn ôl cyd-destunau daearyddol ac amserol.

- Gall sawl cysyniad o gyfiawnder fod yn sail i bontio teg. Gall cyfuno cyfiawnder amgylcheddol, cyfiawnder hinsawdd a chyfiawnder ynni, er enghraifft, arwain at fframwaith mwy cynhwysol ar gyfer pontio teg ac mae gwneud hyn yn rhoi cyfleoedd i hyrwyddo tegwch.

- Ceir amrywiannau a sawl peth cyffredin yn y polisïau y mae gwledydd a rhanbarthau wedi'u mabwysiadu, gan gynnwys:
    - Creu fframwaith cydlynu
    - Cynllunio tymor hir
    - Meithrin capasiti
    - Darparu arian

- Mae gwersi o ymagweddau gwledydd eraill yn dangos, er mwyn i bontio teg fod yn fwyaf effeithiol, na ddylid ei ystyried yn ychwanegiad at bolisïau hinsawdd ond y dylid ei ymwreiddio mewn ystod eang o bolisïau.

- Yn ôl yr adroddiad, gallai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 gael ei defnyddio'n effeithiol fel sylfaen ar gyfer mabwysiadu pontio teg yng Nghymru. Mae'r ymagweddau at bontio teg a drafodwyd yn yr adroddiad yn cyd-fynd â nodau llesiant o fewn y Ddeddf.

- Mae sawl enghraifft ryngwladol yn rhoi gwersi ar gyfer mabwysiadu pontio teg o fewn fframwaith llesiant, fel yr Alban a Seland Newydd, er bod addasiadau i adlewyrchu cyd-destunau cenedlaethol gwahanol yn bwysig.

- Bydd nodi egwyddorion arweiniol ar gyfer gweithredu yn hanfodol wrth sicrhau bod y pontio'n goresgyn yr anghydraddoldebau presennol.

# Cyflwyniad

Gofynnwyd i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi ddiffinio'r hyn a olygir drwy ‘bontio teg’ yng nghyd-destun Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddysgu gwersi o’r ffordd y mae gwledydd eraill wedi mynd i’r afael â phontio teg, a’r fframweithiau y maent wedi penderfynu arnynt i wneud hynny, er mwyn deall p’un a ellir ystyried pontio teg yng Nghymru drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r adolygiad hwn o dystiolaeth yn adeiladu ar waith blaenorol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar yr hyn y gallai pontio teg yng Nghymru ei olygu (Price ac eraill, 2021) ac ar y sgiliau ar gyfer pontio teg (Silva ac eraill, 2022). Gan fod cryn dipyn o ymchwil eisoes wedi’i chynnal yn y maes hwn ac o ystyried pa mor gyflym y mae’r cysyniad o bontio teg wedi esblygu dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r prosiect hwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwil hon ac ymchwil flaenorol arall ac yn cysylltu’r llenyddiaeth ehangach ar bontio teg â chyd-destun Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i'r cwestiynau canlynol:

1. Sut mae pontio teg yn cael ei ddiffinio'n rhyngwladol? Sut mae'r cysyniad o bontio teg wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf?
2. Beth yw'r prif ymagweddau a fabwysiadwyd at bontio teg ar draws y byd?
3. Sut mae'r ymagwedd pontio teg at ddatgarboneiddio yn cymharu ag ymagwedd cyfiawnder amgylcheddol?
4. Sut mae ymagweddau rhyngwladol yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, a sut gallai'r rhain lunio'r Ddeddf fel fframwaith pontio teg i Gymru?

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau drwy ystyried cyd-destun ymdrechion datgarboneiddio Cymru. Rydym yn trafod gwreiddiau a natur esblygol y diffiniad o bontio teg yn rhyngwladol, gan roi crynodeb o gefndir y cysyniadau o gyfiawnder sy’n sail i bontio cyfiawn a theg i economi di-garbon net. Mae’r adroddiad yn mynd ati wedi hynny i gyflwyno rhai o’r ymagweddau byd-eang amrywiol o ymdrin â pholisïau ac arferion pontio teg ac yn ystyried y gwersi a ddysgwyd. Mae ffocws penodol ar sut mae rhai gwledydd wedi defnyddio fframwaith llesiant i ymdrin â phontio teg a ph’un a yw'r dulliau hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru)

2015. Rydym yn gorffen drwy grynhoi'r ymchwil a'r argymhellion ar gyfer mabwysiadu ymagwedd polisi at bontio teg i Gymru.

# Cyd-destun

Mae cytundeb gwleidyddol eang ar yr angen i ddatgarboneiddio economïau mewn ymateb i’r argyfwng hinsawdd parhaus. Llywodraeth Cymru oedd un o'r llywodraethau cenedlaethol cyntaf i ddatgan argyfwng hinsawdd yn 2019 ac mae wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050 (Pris, 2019; Llywodraeth Cymru, 2021a). Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn cynnwys ffocws ar y newid yn yr hinsawdd, gan ymrwymo i adeiladu economi wyrddach a thecach wrth i Gymru wneud cynnydd tuag at ddatgarboneiddio (Llywodraeth Cymru, 2021b). Mae'r ffocws hwn ar degwch ac effaith prosesau pontio economaidd ar gymdeithas yn ganolog i'r cysyniad o bontio teg, y polisi cyntaf a amlinellir yng Nghyllideb Garbon Sero Net Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021a). Fodd bynnag, mae'r cysyniad yn cael ei ddiffinio'n wahanol ar draws y DU ac yn rhyngwladol ac mae wedi esblygu ac ehangu ers iddo gael ei arloesi yn y 1970au gan y mudiad undebau llafur rhyngwladol.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy yn glir, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw pedwaredd strategaeth datblygu cynaliadwy Cymru (Nesom a MacKillop, 2021). Yn y Ddeddf, diffynir ‘datblygu cynaliadwy’ fel:

> **‘… y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy i geisio cyflawni'r nodau llesiant’** (Llywodraeth Cymru, 2015a).

Amlinellir y saith nod llesiant a sefydlwyd o fewn y Ddeddf yn Ffigur 1 isod. Mae'r nodau'n adlewyrchu pedwar piler datblygu cynaliadwy o fewn y Ddeddf (cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol). Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yng Nghymru, mae'n bwysig bod y pedair agwedd hyn ar lesiant yn cael eu gwella.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus osod amcanion llesiant gyda'r nod o gyfrannu at gyflawni nodau llesiant a sicrhau eu bod yn cymryd camau i gyflawni'r amcanion hyn. Mae gofyn i gyrff cyhoeddus wneud hyn yn unol â'r

egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys pum ffordd o weithio. Mae’r rhain fel a ganlyn (Llywodraeth Cymru, 2019: 13):

1. Edrych tua'r tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain
2. Cymryd agwedd integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant
3. Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n cael effaith arnyn nhw
4. Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir
5. Deall gwraidd materion i'w hatal rhag digwydd

### Ffigur 1: Nodau llesiant a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015




Ffynhonnell: **Llywodraeth Cymru (2015b: 4)**

# Diffiniadau o bontio teg

Wrth ei graidd, gellir diffinio pontio teg fel:

> **'… gwyrddio'r economi mewn ffordd sydd mor deg a chynhwysol â phosibl i bawb dan sylw, gan greu cyfleoedd gwaith teilwng a gadael neb ar ôl'** (y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, 2022).

Fodd bynnag, mae'r sylw cynyddol sy'n cael ei roi i bontio teg mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd parhaus wedi arwain at ddatblygu ymagweddau amrywiol at weithredu'r cysyniad wrth iddo esblygu'n gyflym, a diffiniadau amrywiol ohono. Bu sawl ymgais ddiweddar i olrhain yr esblygiad hwn a rhoi eglurder o ran diffiniad a chwmpas. Nododd un adolygiad (Wang a Lo, 2021) bum ffordd o fframio pontio teg:

1. Fel cysyniad sy'n **canolbwyntio ar lafur**, gan bwysleisio tarddiad y cysyniad pontio teg yn y mudiad llafur
2. Fel **fframwaith integredig ar gyfer cyfiawnder**, gan gyfuno mathau eraill o gyfiawnder, gan gynnwys hinsawdd, ynni ac amgylcheddol
3. Fel **damcaniaeth pontio cymdeithasol-dechnegol**, gan ganolbwyntio ar y newidiadau strwythurol sydd eu hangen i hwyluso datgarboneiddio
4. Fel **strategaeth lywodraethu** sydd wedi'i chanolbwyntio ar y prosesau gwleidyddol a'r strwythurau sefydliadol sy'n ymwneud â'r pontio
5. Fel **canfyddiad y cyhoedd**, gan ganolbwyntio ar agweddau'r cyhoedd tuag at ddatgarboneiddio

Mae'r un adolygiad yn amlygu nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bod bwlch sylweddol yn parhau mewn perthynas â deall sut mae pontio teg yn cael ei ddiffinio a'i weithredu (Wang a Lo, 2021).

## Ymagwedd llafur at bontio teg

Roedd y fframweithiau pontio gwreiddiol a ddaeth i'r amlwg yn y 1970au 'yn cyfuno pryderon amgylcheddol a chymdeithasol y mudiad llafur i greu egwyddorion atebolrwydd a allai sicrhau cefnogaeth i weithwyr mewn diwydiannau sy'n destun pontio' (Emden ac eraill, 2020: 6). Mae pontio teg sy'n canolbwyntio ar lafur yn canolbwyntio ar hawliau gweithwyr a chymunedau yr effeithiwyd arnynt yn benodol wrth bontio i gymdeithasau carbon isel. Gan adeiladu ar waith y mudiad llafur, mae Emden ac eraill (2020) wedi amlinellu meini prawf y dylid eu defnyddio i fesur polisïau pontio wrth gymryd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar lafur at bontio teg, sy'n cynnwys ymgysylltu â chymunedau, creu swyddi sy'n talu'n dda, amrywiaeth ryngblethol a chydnabyddiaeth nad oes polisi 'un maint i bawb'.

## Dulliau sy'n seiliedig ar gyfiawnder i bontio teg

Mae gwreiddiau'r cysyniad pontio teg hefyd wedi'u clymu'n agos at gyfiawnder amgylcheddol, y mae Client Earth, elusen cyfraith amgylcheddol, yn ei ddiffinio fel:

> **'… triniaeth deg a chyfranogiad ystyrlon pob unigolyn, waeth beth fo'i hil, lliw, tarddiad cenedlaethol neu incwm, mewn perthynas â datblygu, gweithredu a gorfodi deddfau, rheoliadau a pholisïau amgylcheddol.'** (Client Earth, 2021)

Daeth y mudiad cyfiawnder amgylcheddol i'r amlwg yn y 1980au ymhlith gweithwyr yn yr Unol Daleithiau a oedd yn pryderu am ddosbarthiad anghyfartal effeithiau amgylcheddol gweithgarwch economaidd, gan gynnwys llygredd diwydiannol ac amodau gwaith (Martinez-Alier, 2012; Weber a Cabras, 2021). Mae ysgolheictod yn y maes hwn yn archwilio'r cysylltiadau rhwng anghydraddoldebau (dosbarth, rhywedd a hil) a'r amgylchedd i ddeall y materion cyfiawnder sy'n digwydd yn y croestoriadau hyn (Schlosberg, 2009; Weber a Cabras, 2021). Yn perthyn yn agos i gyfiawnder amgylcheddol y mae 'cyfiawnder hinsawdd' a 'chyfiawnder ynni'. Ystyr cyfiawnder hinsawdd yw:

> **'… canfod atebion i'r argyfwng hinsawdd sydd nid yn unig yn lleihau allyriadau neu'n diogelu'r byd naturiol, ond sy'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n creu byd tecach, mwy cyfiawn a mwy cyfartal.'** (Cyfeillion y Ddaear, 2022)

Mae cyfiawnder hinsawdd yn canolbwyntio'n bennaf ar sut y gall pontio teg byd-eang fod yn effeithiol yn y ffordd y mae'n ymateb i'r goblygiadau i grwpiau bregus o newid hinsawdd cyflym a'r canlyniadau negyddol sy'n cyd-fynd ag ef (McCauley a Heffron, 2018). Mewn cyferbyniad, mae cyfiawnder ynni yn cyfeirio at:

> **'… y nod o sicrhau tegwch yng nghyfranogiad cymdeithasol ac economaidd yn y system ynni, wrth hefyd leihau beichiau cymdeithasol, economaidd ac iechyd ar y rhai sy'n cael eu niweidio'n anghymesur gan y system ynni.'** (Menter dros Gyfiawnder Ynni, 2019)

O fewn dull cyfiawnder ynni, mae 'pontio' wedi'i ymgorffori o'r safbwynt cynhyrchu, sef symud tuag at ffynonellau carbon isel, ochr yn ochr â phryderon ynghylch defnyddio a chyflawni effeithlonrwydd ynni heb beryglu llesiant unigol na pharhad y gymuned (McCauley a Heffron, 2018).

Mae gan bob un o'r mathau hyn o gyfiawnder ei ffocws a'i gymuned polisi unigryw ei hun, er bod gorgyffwrdd sylweddol. Mae eu huno o dan y term 'pontio teg' yn dwyn ynghyd rhanddeiliaid perthnasol drwy fframwaith mwy cynhwysol gyda llai o angen

am wybodaeth arbenigol (Heffron, 2021). Mae McCauley a Heffron yn dadlau bod dod â'r tri math o gyfiawnder hyn at ei gilydd, sef amgylcheddol, hinsawdd ac ynni, fel hyn yn gyfle i ddadansoddi a hyrwyddo tegwch drwy gydol y cyfnod pontio oddi wrth danwyddau ffosil (McCauley a Heffron, 2018). Gellir ystyried pontio teg yn gysyniad cyfuno sy'n ymgorffori cyfiawnder amgylcheddol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y gellir ehangu'r cysyniad pontio teg i gwmpasu'r holl bryderon cyfiawnder amgylcheddol a chymdeithasol, gan y byddai hyn yn peryglu iddo golli cydlyniad.

Mae cyfiawnder ynni sy’n pontio'r cenedlaethau hefyd wedi cael ei nodi mewn perthynas â gweithio tuag at bontio teg. Mae'n ymwneud ag ymagweddau amserol y newid yn yr hinsawdd ac mae wedi'i ddiffinio fel:

> **‘… sefyllfa o ran polisïau sy'n ffafriol i ddosbarthiad teg o adnoddau ynni naturiol ac anadnewyddadwy sy’n gyfyngedig ac sy’n anelu at atal unrhyw ddifrod difrifol i'r biosffer, ac sy'n ystyried urddas cyfartal a chydraddoldeb hawliau cenedlaethau gwahanol, hyd yn oed wrth fyw mewn amseroedd pell.’** (Pellegrini-Masini ac eraill, 2020: 296)

Ochr yn ochr â chyfiawnder amgylcheddol, daeth cyfiawnder pontio'r cenedlaethau i'r amlwg mewn trafodaethau cynaliadwyedd yn ystod y 1980au fel math o gyfiawnder dosbarthol. Daliad craidd datblygu cynaliadwy yw bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (Comisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygu, 1987).

## Ymagwedd cyfiawnder systemau cyfan

Mae Abram ac eraill (2022) yn dadlau dros ddull systemau cyfan fel ffordd o egluro ffiniau cysyniadol pontio teg. Yn ôl y dull hwn, mae egwyddorion sylfaenol ‘cyfiawnder’, sef cyfiawnder dosbarthiadol, cyfiawnder gweithdrefnol, cyfiawnder fel cydnabyddiaeth, a chyfiawnder adferol, yn allweddol i ddatblygu fframwaith cadarn y gellir ei ddefnyddio i nodi a dadansoddi'r posibiliadau ar gyfer pontio teg. Mae cyfiawnder dosbarthiadol yn ymwneud â dosbarthu costau a manteision pontio mewn modd teg i sicrhau bod pawb yn well eu byd (McCauley a Heffron, 2018). Er enghraifft, gall ystyried sut y gall cymunedau sy’n cael eu heffeithio a'u hamddifadu hefyd elwa ar ymdrechion pontio, yn hytrach na'u tawelu'n ariannol yn unig (Abram ac eraill, 2022). Mae cyfiawnder cydnabyddiaeth hefyd yn arwyddocaol gan mai cydnabod ‘pwysigrwydd ysgogwyr cyd-destunol a pherthynol’ anghyfiawnder yw man cychwyn mabwysiadu ymagwedd systemau cyfan at bontio teg (Abram ac eraill, 2022: 1038). Un o'r prif agweddau ar gyfiawnder cydnabyddiaeth yw sicrhau agwedd sensitif at brofiadau byw gwahanol grwpiau cymdeithasol, a chyda hyn mewn golwg, cydnabod nad oes un map ffordd llinellol tuag at ddatgarboneiddio. Mae cyfiawnder gweithdrefnol yn cynnwys gwahodd rhanddeiliaid yr effeithir arnynt i gymryd rhan

mewn prosesau gwneud penderfyniadau, tra bo cyfiawnder cyfranogol yn mynd â hyn ymhellach drwy sicrhau bod rhanddeiliaid hefyd yn cael eu grymuso drwy gydol y broses. Mae cyfiawnder adferol yn aml yn cael ei anwybyddu, ac mae'n cynnwys darparu iawndal i bobl a chymunedau ar gyfer colledion y gorffennol, y presennol a'r dyfodol (Abram ac eraill, 2022).

## Llywio egwyddorion ar gyfer pontio teg

Bu rhywfaint o ddadlau yn y llenyddiaeth ynghylch i ba raddau y mae diffiniad, fframwaith neu ymagwedd polisi gyffredinol at bontio teg yn briodol. Mae adroddiad diweddar gan Lywodraeth yr Alban yn nodi bod amrywiaeth sylweddol o ddiffiniadau o 'bontio teg' (Pinker, 2020). Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i fannau cychwyn ideolegol ymwahanol, ond hefyd oherwydd y bydd ffurf, ystyr a phroses pontio teg yng Nghymru yn cael eu clymu'n anorfod wrth 'strwythur y diwydiant, y gweithlu a'r gymuned' ym mhob rhanbarth (Pinker, 2020: 12). Mae llawer yn ceisio diffinio ffocws pontio teg nid ar ddatblygu dull cyffredinol ond yn hytrach cyflwyno egwyddorion a all arwain datblygu ymagwedd cyd-destun penodol (gweler IEN, 2017; Piggot ac eraill, 2019; Atteridge a Strambo, 2020; Pinker, 2020; TUC Cymru, 2020; JTA, 2022). Gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd ansawdd swyddi mewn cyflogaeth yn y dyfodol, yn ogystal â newid i gymdeithasau tecach o safbwynt amgylcheddol a chymdeithasol, mae Emden a Murphy (2019: 14) yn argymell y dylid mesur sicrhau pontio teg yn ôl yr egwyddorion canlynol sy'n canolbwyntio ar lafur:

1. **Ymgysylltu â chymunedau.** Mae ymgynghoriad digonol a gwybodus yn rhan annatod o sefydlu nodau cyffredin a chynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r llywodraeth genedlaethol a lleol, yn ogystal â chyflogwyr sy'n ymgymryd â pholisïau pontio teg, ymgysylltu â chymunedau lleol a blaenoriaethu cyflogaeth ganddynt a, lle bo'n bosibl, darparu hyfforddiant i weithwyr yn y meysydd hyn.
2. **Hyblygrwydd.** Cydnabyddiaeth nad oes un polisi sy'n addas i bawb. Felly, rhaid cynllunio rhaglenni pontio gyda'r amodau lleol, y sectorau economaidd, a'r mathau o fentrau a'u maint mewn golwg.
3. **Swyddi sy'n talu'n dda.** Dylai gweithwyr allu disgwyl i gyfleoedd cyflogaeth newydd fod â chyflog sy'n hafal i'w gwaith blaenorol neu'n well nag ef.
4. **Amddiffyn hawliau gweithwyr.** Rhaid cynnwys hawliau ffurfiol mewn contractau cyflogaeth, gan gynnwys absenoldeb oherwydd salwch â thâl, anabledd, absenoldeb mamolaeth a thadolaeth, gwyliau, gweithdrefnau cwynion ffurfiol, a mynediad at gymorth galwedigaethol ac iechyd meddwl.

5. **Cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a dilyniant gyrfa.** Rhaid cael cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith sy'n darparu cymwysterau newydd a mwy o ragolygon ar gyfer hyrwyddo a dilyniant gyrfa yn y dyfodol.
6. **Diogelwch swydd.** Cyflogaeth sy'n seiliedig ar statws cyflogaeth hirdymor neu barhaol yn hytrach na gwaith contract tymor byr neu gontractau dim oriau.
7. **Amrywiaeth groestoriadol.** Gweithlu sy'n gweithio tuag at amcan o fod yn gynhwysol o bob grŵp mewn cymdeithas, gan gynnwys amrywiaeth ar draws rhywedd, ethnigrwydd a rhywioldeb.
8. **Amgylchedd gweithio'n ddiogel.** Dylid lleihau'r risg o anafiadau yn y gweithle cymaint â phosibl a rhaid rhoi mesurau rhagofalus a phrotocolau llym ar waith wrth gynnal unrhyw waith a allai fod yn beryglus.

Gan fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar gyfiawnder, mae Sefydliad Friedrich Ebert (Hirsch ac eraill, 2017) wedi datblygu set o egwyddorion sy'n cwmpasu'r dimensiynau hinsoddol, economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol ac sy'n gweithredu fel fframwaith cyfeirio ar gyfer pontio teg (Tabl 1). Mae pob un o'r wyth egwyddor yn cael ei llywio gan set o ddangosyddion ac mae gwledydd yn cael eu sgorio ar eu cydymffurfedd â'r dangosyddion hyn. Mae hyn yn caniatáu asesu lefelau cyfiawnder yng ngwaith gwlad o fabwysiadu pontio teg.

**Tabl 1: Fframwaith cyfeirio a ddefnyddir i asesu pontio ynni a ddatblygwyd gan Sefydliad Friedrich Ebert**


| Wyth Egwyddor ar gyfer Pontio Ynni Teg |
| --- |
| **Dimensiwn Hinsawdd Cyfiawnder** |
| **Mae'r pontio ynni cenedlaethol yn adlewyrchu'r uchelgais o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero erbyn 2050.** |
| **Mae'r pontio ynni yn cyd-fynd yn agos â'r gwaith o weithredu'r nodau datblygu cynaliadwy.** |
| **Dimensiwn Economaidd-gymdeithasol Cyfiawnder** |
| **Nod y pontio ynni yw creu gwaith teilwng, mae'n adlewyrchu ymrwymiadau i gefnogi'r rhai sy'n colli swyddi, ac mae'n ymdrechu i leihau risgiau hinsawdd pobl fregus.** |
| **Dylai'r pontio ynni gael effaith gadarnhaol ar degwch cymdeithasol.** |

| |
|---|
| **Dylai'r pontio ynni gyfrannu at gydraddoldeb rhywiol.** |
| **Dimensiwn Gwleidyddol Cyfiawnder** |
| **Mae cyfranogiad priodol gan randdeiliaid lluosog yn cael ei sicrhau yn y broses pontio ynni.** |
| **Mae llywodraethu da, tryloywder ac atebolrwydd yn cael eu sicrhau yn y broses pontio ynni.** |
| **Mae hawliau dynol yn cael eu parchu, eu diogelu a'u cyflawni yn y pontio ynni.** |

Ffynhonnell: **Hirsch (2018)**

Mae Atteridge a Strambo (2020) yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r cysyniadau, egwyddorion a phrosesau sy'n dod i'r amlwg o'r llenyddiaeth pontio teg ac sy’n llywio fframweithiau o'r fath. Dangosir enghraifft o set o egwyddorion o'r fath yn Ffigur 2.

## Ffigur 2: Enghraifft o set o egwyddorion ar gyfer pontio teg a ddatblygwyd gan Sefydliad Amgylchedd Stockholm




Ffynhonnell: Atteridge a Strambo (2020: 7)

# Ymagweddau at bontio teg

Adlewyrchir y dulliau niferus o ymdrin â phontio teg, a diffiniadau ohono, yn y llenyddiaeth mewn dulliau tebyg amrywiol yn ymarferol. Mae'r Just Transition Research Collaborative, sy'n dwyn ynghyd tua 20 o ymchwilwyr academaidd o Ogledd America, Ewrop, Awstralia a De Affrica, wedi nodi pedwar dull gwahanol o bontio teg ledled y byd (2018: 12-14).[1]

1. **Status quo** – 'gwyrddni cyfalafiaeth trwy newidiadau gwirfoddol, gwaelod i fyny a chorfforaethol sy'n cael eu hysgogi gan y farchnad'.
2. **Diwygio rheolaethol** – 'ceisir mwy o degwch a chyfiawnder o fewn y system economaidd bresennol a heb herio'r hegemoni presennol'.
3. **Diwygio strwythurol** – 'yn awgrymu newid sefydliadol ac esblygiad strwythurol y system. Nid yw atebion yn cael eu cynhyrchu'n unig drwy rymoedd marchnad neu fathau traddodiadol o wyddoniaeth neu dechnoleg, ond maent yn dod o strwythurau llywodraethu addasedig, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau democrataidd, a pherchnogaeth'.
4. **Trawsnewidiol** – 'ailwampio'r system economaidd a gwleidyddol bresennol sy'n cael ei hystyried yn gyfrifol am argyfyngau amgylcheddol a chymdeithasol'.

Mae dulliau polisi o fewn fframwaith cenedlaethol wedi amrywio, gyda thebygrwydd a gwahaniaethau wedi'u harchwilio gan arbenigwyr yn y maes. Mae adroddiadau diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban (Pinker, 2020) a Sefydliad Amgylchedd Stockholm (Piggot ac eraill, 2019) yn archwilio astudiaethau achos o brosesau ac egwyddorion wedi'u halinio â phontio teg, a drafodwyd isod.

Mae nifer o bethau cyffredin yn yr ymagweddau polisi y mae gwledydd a rhanbarthau wedi'u cymryd tuag at bontio teg, gan gynnwys creu fframwaith cydlynu, cynllunio tymor hir, ac adeiladu capasiti ac arian. Ymagwedd polisi a fabwysiadwyd gan sawl gwlad yw **creu strategaethau a chynlluniau gweithredu fel mecanweithiau cymorth**. Mae Strategaeth Cystadleurwydd Gwyrdd Norwy yn amlinellu'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o ddatgarboneiddio ac yn cynnwys argymhellion ar sut y gall Norwy gyflawni sero net trwy fuddsoddi mewn diwydiannau newydd a gwyrdd (Pinker, 2020). Mae Strategaeth Sero Net: Build Back Greener Llywodraeth y DU yn

[1] Yn ymarferol, mae labelu ymagweddau gwahanol yn destun barn ac mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y categorïau hyn.

llunio arloesedd a sgiliau i gefnogi'r targed sero net (yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, 2021). Dylid hefyd nodi Cynllun Gweithredu Hinsawdd manwl Iwerddon, sy’n nodi camau gweithredu mewn sectorau megis trafnidiaeth, tai, amaethyddiaeth ac ynni sy'n ofynnol i gyflawni’r targed o allyriadau sero net erbyn 2050 (Llywodraeth Iwerddon, 2021), a Strategaeth Canol y Ganrif yn UDA (Pinker, 2020), sy'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i hwyluso pontio teg. Mae gwledydd eraill, megis yr Almaen a Chanada, wedi cymryd y dull o sefydlu comisiynau i nodi effaith y pontio ar wahanol grwpiau cymdeithasol ac economaidd (Pinker, 2020). Mae Comisiwn Glo'r Almaen yn darparu iawndal i ddefnyddwyr ynni am brisiau ynni uwch, ochr yn ochr â chyllid ar gyfer ‘mesurau pontio’ (Pinker, 2020).

Mae llawer o'r polisïau yn sefydlu cronfeydd pontio sydd â'r nod o gefnogi gweithwyr a llywodraethau lleol mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan gynlluniau'r llywodraeth i ddileu cynhyrchu trydan gan ddefnyddio tanwyddau ffosil yn raddol. Yn Alberta, mae Cronfa Pontio’r Gweithlu Glo Canada yn bwriadu cefnogi gweithwyr glo drwy ddarparu cwnsela gyrfa, cymorth dysgu ar gyfer ailhyfforddi a chymorth adleoli (Piggot ac eraill, 2019). Enghreifftiau eraill o'r ymagwedd polisi hon wedi’i alinio â phontio teg yw'r Gronfa Pontio Gweithwyr Olew yn yr Alban, sy'n darparu cyllid ar gyfer ailhyfforddi gweithwyr olew a nwy i bontio i rolau newydd (Piggot ac eraill, 2019), a Mecanwaith Pontio Teg y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n cynnwys cyfres o gronfeydd i gefnogi gweithgareddau wedi'u halinio â phontio teg (y Comisiwn Ewropeaidd, 2019). Mae deddfwriaeth hinsawdd sy'n cyfeirio at egwyddor pontio teg, megis Deddf Arweinyddiaeth Hinsawdd a Diogelu Cymunedol Talaith Efrog Newydd (Deddf Hinsawdd) 2019, sydd wedi arwain at sefydlu Gweithgor Cyfiawnder Hinsawdd, a'r Bil Newid Hinsawdd yng Ngogledd Iwerddon (Fearon a Barry, 2021), hefyd wedi'i chyflwyno (gweler yr atodiad).

## Dealltwriaeth wahanol o bontio teg effeithiol

Bu llawer o ddadlau ynghylch p’un a yw'r enghreifftiau hyn o bolisïau pontio teg wedi cyflawni eu nodau, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i ddadl barhaus dros ystyr y term, gan gynnwys, er enghraifft, sut olwg sydd ar ddosbarthiad ‘teg’ o adnoddau. Ar ben hynny, mae llawer o awduron yn pwysleisio'r angen am effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus gwell i gyflawni dosbarthiad teg o adnoddau oherwydd y bydd yn rhaid i wasanaethau dynnu ar fewnbynnau ynni llai (er enghraifft, defnydd mwy effeithlon trafnidiaeth gyhoeddus o ynni fesul milltir i deithwyr, o'i gymharu â cherbydau preifat) (Krawchenko a Gordon, 2021; Pianta a Lucchese, 2020; Smith, 2017). Mae'r dull hwn yn tueddu i gael ei eithrio o enghreifftiau o bolisïau pontio teg, gan fod yr enghreifftiau'n canolbwyntio ar leddfu unrhyw oblygiadau cymdeithasol negyddol uniongyrchol sy'n deillio o ddod â gwaith i echdynnu, dosbarthu a defnyddio tanwyddau ffosil i ben neu ei leihau. Mae hynny'n debygol oherwydd bod ymdrechion o'r fath yn canolbwyntio ar bolisi datgarboneiddio,

yn hytrach na'r amcanion polisi ehangach y mae gwasanaethau cyhoeddus (a’r rhai sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus) wedi'u cynllunio i'w cyflawni, gan gynnwys lleihau anghydraddoldeb. Un eithriad nodedig i hyn yw ‘Tocyn Hinsawdd’ Awstria, sy'n caniatáu teithio ar drên trwy gydol y flwyddyn yn Awstria am tua £2.50 y dydd (Serafimova ac eraill, 2022).

## Astudiaeth achos: Pontio teg yn Ne Affrica

**Mae gwersi i'w dysgu o ddull De Affrica tuag at gyflawni pontio teg (Connolly, 2022). Ym mis Awst 2022, mabwysiadodd De Affrica ei Fframwaith Pontio Teg ar gyfer De Affrica, yn dilyn ymgynghoriad trylwyr â nifer o randdeiliaid. Mae'r fframwaith hwn yn gosod gweledigaeth gyffredin ar gyfer pontio yn ogystal ag egwyddorion llywio, polisïau a threfniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu a goruchwylio'r pontio. Mae'r fframwaith yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol mewn ffordd gytbwys, gan ystyried y goblygiadau ar gyfer bywoliaeth pobl De Affrica yn y dyfodol. Fodd bynnag, er bod De Affrica wedi dod yn arloeswr y mudiad pontio teg, mae wedi dod ar draws heriau cydlynu ac alinio.**

**Mae angen dull wedi'i gydgysylltu ar gyfer pontio effeithiol. Cyfeiriodd at y cyntaf ym mholisi De Affrica yn 2011, ac yna enillodd y mudiad pontio teg fomentwm yn y blynyddoedd a ddilynodd, ond methodd â chreu effaith oherwydd nad oedd ymdrechion yn cael eu cydgysylltu, oherwydd nad oedd un endid gan y llywodraeth â chyfrifoldeb i reoli'r broses. Mae corff statudol annibynnol, y Comisiwn Hinsawdd Arlywyddol, wedi ei greu at y diben hwn, er nad yw wedi ennill pwerau statudol eto.**

**Rhaid i bolisïau domestig gyd-fynd â thargedau hinsawdd. Wrth i ymrwymiadau hinsawdd De Affrica ddod yn fwyfwy uchelgeisiol, mae rhai o'i pholisïau domestig wedi'u halinio. Fodd bynnag, mae polisïau eraill sydd mewn perygl o rwystro’r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hyn, yn arbennig yn gysylltiedig ag echdynnu tanwyddau ffosil.**

**Mae profiad De Affrica yn dangos y dylai rhanddeiliaid gael eu cynnwys drwy gydol prosesau llunio polisïau a bod tryloywder wrth lunio polisïau yn bwysig. Yn 2017, cyhoeddodd cwmni cyfleustodau'r wladwriaeth, Eskom, y byddai pum safle pŵer glo yn cau oherwydd yr angen i drosglwyddo tuag at ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, nid ymgynghorwyd â’r undebau llafur cyn i'r cyhoeddiad hwn gael ei wneud, ac felly gwnaethant ymateb drwy alw am brotestiadau yn erbyn y penderfyniad.**

# Llesiant a phontio teg i Gymru

Mae'r gwaith presennol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sefydlu set o werthoedd craidd fel sail i fframwaith ar gyfer pontio teg yng Nghymru ac i weithredu fel ei egwyddorion arweiniol (Jafry, 2021). Nododd y gwaith hwn Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel man cychwyn neu fframwaith posibl ar gyfer hyn: mae Nod Llesiant Cenedlaethol 7 yn galw am Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, ac mae llawer o ddangosyddion o fewn nodau eraill hefyd yn ymwneud â phontio teg.[2] Sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'r nod o wella cydweithio ar lesiant ar draws gwasanaethau cyhoeddus ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae MacBride-Stewart a Parken (2021) yn awgrymu gweithredu ymagwedd sy'n seiliedig ar leoedd at bontio teg sy'n adeiladu ar fentrau a deddfwriaeth bresennol Cymru, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y mae'n ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi asesiadau a chynlluniau llesiant oddi tani fel rhan o fframwaith y Ddeddf.

Mae llwyfannau eraill presennol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) a Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019), wedi'u nodi fel ffynonellau amgen o werthoedd craidd (Jafry, 2021).

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel sylfaen ar gyfer pontio teg

Mynnwyd y byddai pontio teg 'yn cynnwys ymrwymiad deuol i lesiant dynol … a chynaliadwyedd' (Swilling ac eraill, 2016: 650). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu nodau a ffyrdd o weithio sy'n ymateb i'r angen hwn, er bod y nodau'n ddigon eang y bydd y ffocws penodol wrth weithredu a chyflawni'r dangosyddion yn pennu gradd yr aliniad. Mae ein trafodaeth hyd yn hyn wedi amlygu nad oes unrhyw un diffiniad derbyniol o bontio teg a bod llawer iawn o drafod yn bodoli ynghylch y term.

---

[2] Gallai ystyried y dangosyddion cenedlaethol ddatblygu'r asesiad hwn ymhellach. Gellir dod o hyd i'r dangosyddion yma **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol.**

Wrth ystyried sut i fynd at bontio teg yng Nghymru, mae'n ddefnyddiol alinio'r dulliau gweithredu sydd wedi'u trafod hyd yn hyn â'r saith nod llesiant a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Tabl 2 yn crynhoi sut mae pob dull yn cyd-fynd â'r nodau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pwysleisio dull hirdymor a rhyng-genhedlaeth ac, oherwydd hyn, mae wedi'i alinio'n gryf â dull pontio'r cenedlaethau fel y dangosir yn Nhabl 2. O ran yr wyth ymagwedd at bontio teg sy'n canolbwyntio ar lafur gan Emden ac eraill (2020), gellir gweld bod Nod 1: Cymru lewyrchus yn mynd i'r afael â nifer o'r ymagweddau hyn.

Mae'r gyfatebiaeth agos rhwng y cysyniad pontio teg a chyfiawnder amgylcheddol, a drafodir uchod, hefyd yn cyd-fynd â Nod 1 a Nod 2: Cymru lewyrchus a chydnerth. Mae dull cyfiawnder ynni yn cyd-fynd â Nod 3: Cymru iachach, gan ei fod yn ymwneud â lleihau beichiau iechyd wrth hefyd sicrhau tegwch yn y system ynni. Mae ffocws cyfiawnder amgylcheddol ar grwpiau bregus yn ymwneud â Nod 4: Cymru fwy cyfartal. Er nad yw'r nod hwn yn cyfeirio'n benodol at grwpiau bregus, mae'n annhebygol y bydd yn cael ei gyflawni heb ystyriaeth ddyledus ohonynt, ac mae hyn yn ystyriaeth bwysig i'w weithredu.

Gellid deall ffocws cyfiawnder ynni ar symud tuag at gynhyrchu carbon isel ochr yn ochr â defnydd ynni effeithlon, wrth sicrhau llesiant unigol a chymunedol, fel bod yn' bresennol o fewn Nodau 1 a 5: Cymru lewyrchus a Chymru o gymunedau cydlynus. Mae Nod 1 yn cyfeirio at 'gymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur' ac mae Nod 5 yn pwysleisio cymunedau, er nad yw'n glir p'un a oes gan y cyfeiriad at gymunedau yn Nod 5 yr un ystyr (Llywodraeth Cymru, 2015a: 4). Mae Nod 6: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yn cyd-fynd â chyfiawnder gweithdrefnol, sy'n pwysleisio pwysigrwydd cynnwys lluosogrwydd safbwyntiau drwy gydol y cyfnod pontio i sicrhau bod pawb yn cael eu cynrychioli. Yn olaf, mae Nod 7: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn cyd-fynd yn dda â daliadau craidd ystod o ddulliau i geisio gwella llesiant cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys ymagweddau cyfiawnder hinsawdd a chyfiawnder amgylcheddol.

### Tabl 2: Y saith nod llesiant a'r ymagweddau wedi'u halinio

| Nod llesiant | Disgrifiad (Llywodraeth Cymru, 2015a: 4) | Ymagweddau |
|---|---|---|
| **Nod 1: Cymru lewyrchus** | 'Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.' | Nifer o'r **wyth ymagwedd at bontio deg sy'n canolbwyntio ar lafur** gan Emden ac eraill (2020) (ymgysylltu â chymunedau, hyblygrwydd, swyddi â chyflogau da, amddiffyn hawliau gweithwyr, cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a dilyniant gyrfa, cyflogaeth â diogelwch swyddi).<br><br>Mae Nod 1 hefyd yn cyd-fynd yn naturiol ag **ymagwedd pontio'r cenedlaethau** gan ei fod yn ystyried y manteision ar gyfer cenedlaethau y presennol a'r dyfodol o gynhyrchu cyfoeth trwy waith sicr a diogel. |
| **Nod 2: Cymru gydnerth** | 'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).' | Mae **ymagwedd cyfiawnder hinsawdd** sy'n ceisio lleihau allyriadau a gwarchod y byd naturiol, wrth greu amgylchedd tecach a mwy cyfiawn hefyd, yn cyd-fynd â'r nod o Gymru gydnerth.<br><br>Gall ffocws **cyfiawnder ynni** ar symud tuag at gynhyrchu carbon isel ynghyd â defnydd ynni effeithlon, wrth sicrhau llesiant unigol a chymunedol, gael ei ystyried i fod yn bresennol o fewn Nod 5. |
| **Nod 3: Cymru iachach** | 'Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.' | Dull **pontio'r cenedlaethau**, lle mae cydnabyddiaeth bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, ac sy'n cyd-fynd â gweithredu mewn ffordd 'sydd o fudd i iechyd y dyfodol' a nodir yn Nod 3.<br><br>Mae **ymagwedd cyfiawnder ynni** yn cynnwys sicrhau tegwch yn y system ynni wrth hefyd leihau beichiau iechyd, gan gyd-fynd â nod craidd Nod 3. |
| **Nod 4: Cymru sy'n fwy cyfartal** | 'Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys | Gellid ystyried bod y ffocws o fewn yr **ymagwedd cyfiawnder amgylcheddol** ar grwpiau bregus yn cyd-fynd â'r nod hwn. Er nad yw Nod 4 yn cyfeirio'n benodol at grwpiau bregus, mae'n annhebygol y bydd yn cael ei gyflawni heb |

| | | |
|---|---|---|
| | eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).' | ystyriaeth ddyledus ohonynt, ac mae hyn yn ystyriaeth bwysig i'w gweithredu.<br><br>Mae **dull cyfiawnder hinsawdd** yn cynnwys ymdrech gyfannol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, un sydd nid yn unig yn amddiffyn y byd naturiol ond sy'n creu byd tecach a mwy cyfartal. |
| **Nod 5: Cymru o gymunedau cydlynus** | 'Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.' | **Mae cyfiawnder gweithdrefnol** yn cynnwys gwahodd rhanddeiliaid a chymunedau yr effeithir arnynt i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Yn yr un modd, nod **cyfiawnder cyfranogol** yw sicrhau bod rhanddeiliaid (neu gymunedau) yn cael eu grymuso drwy gydol y broses bontio a bod eu buddiannau gorau yn cael eu hystyried.<br><br>Mae **egwyddorion sy'n canolbwyntio ar lafur** Emden ac eraill (2020) yn cyd-fynd â Nod 5, gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau.<br><br>Mae ystyried pryderon sy'n seiliedig ar ddefnydd ynghylch sicrhau effeithlonrwydd ynni heb beryglu parhad neu lesiant y gymuned o fewn **ymagwedd cyfiawnder ynni yn cyd-fynd â Nod 5.** |
| **Nod 6: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.' | Mae **cyfiawnder gweithdrefnol** yn ymwneud ag ymgysylltu â lluosogrwydd safbwyntiau. Bydd cyfranogiad ystod o bobl a chymunedau, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Cymraeg, drwy gydol y broses bontio yn bwysig wrth hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| **Nod 7: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | 'Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried p'un a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.' | Yn sail i Nod 7 mae ystod o ymagweddau a drafodir, gan gynnwys **cyfiawnder rhwng cenedlaethau, cyfiawnder hinsawdd** a **chyfiawnder amgylcheddol**. |


Mae alinio'r ymagweddau a drafodir uchod â'r nodau llesiant yn awgrymu bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu sylfaen addas ar gyfer mabwysiadu pontio teg yng Nghymru. Fodd bynnag, efallai y bydd yn fuddiol cryfhau'r sylfaen hon gyda set o egwyddorion arweiniol i sicrhau bod ymagwedd

gyson a chlir at weithredu pontio teg. Mae'r dimensiynau cyfiawnder a nodir yn set Hirsch ac eraill (2017) o egwyddorion arweiniol (gwleidyddol, economaidd-gymdeithasol a hinsawdd), er enghraifft, yn cyd-fynd yn dda â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn sail i'r egwyddorion hyn mae ystod o ddangosyddion sy'n caniatáu mesur cynnydd tuag at gyrraedd targedau pontio.

Mae rhai enghreifftiau rhyngwladol o sut y gellir defnyddio fframweithiau llesiant i lywio ymagwedd pontio teg. Mae'r fframweithiau hyn wedi dod i'r amlwg i gydnabod y cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth ganolbwyntio ar gynnyrch domestig gros fel mesur o ffyniant economaidd a'r methiant i gyfrif am ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant unigol. Mae fframwaith y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn un enghraifft o'r fath (gweler Ffigur 3 isod). Mae'n fframwaith sy'n canolbwyntio ar bobl sy'n dal canlyniadau a'u dosbarthiad ac yn dangos sut mae llesiant unigol a chymunedol yn cael eu dylanwadu gan fwy na ffactorau economaidd (Nesom a Tilley, 2021).

### Ffigur 3: Fframwaith mesur llesiant y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)

Ffynhonnell: **OECD (2019: 15)**



Mae'n honni bod mabwysiadu lens llesiant yn golygu na ddylai nodau hinsawdd a llesiant 'gael eu dilyn ar wahân i'w gilydd' (OECD, 2019: 11). Mae mabwysiadu lens llesiant yn golygu'r canlynol:

- Dylid diffinio nodau polisi o ran canlyniadau llesiant ac maent yn cael eu hadlewyrchu'n systematig wrth wneud penderfyniadau ar draws yr economi
- Dylid gwneud penderfyniadau gan ystyried amcanion llesiant lluosog, yn hytrach na chanolbwyntio ar un amcan neu ystod gul iawn o amcan(ion) yn annibynnol ar eraill
- Mae dealltwriaeth ddigon da o'r gydberthynas rhwng y sectorau a systemau economaidd gwahanol y mae polisi yn ymyrryd ynddynt

Mae hefyd enghreifftiau sy'n benodol i wlad o fframweithiau llesiant ar gyfer pontio teg. Mae Costa Rica, er enghraifft, wedi gwneud pontio teg yn elfen bwysig o'i chynllun hinsawdd cenedlaethol presennol (Beuermann a Brandemann, 2021). Mae'n ystyried pontio teg fel:

> **'… proses o'r economi gyfan sy'n cynhyrchu'r cynlluniau, y polisïau a'r buddsoddiadau sy'n arwain at ddyfodol lle mae pob swydd yn wyrdd a gweddus, mae allyriadau net yn sero, mae tlodi wedi'i ddileu, ac mae cymunedau'n llewyrchus ac yn gydnerth.'** (Beuermann a Brandemann, 2021: 8)

## Astudiaeth achos: Pontio teg yn Seland Newydd

**Mae pontio Seland Newydd tuag at economi allyriadau isel wedi cael ei ddeddfu yn Neddf Diwygio Ymateb Newid Hinsawdd (Di-garbon) 2019. Yn 2021, cyflwynodd Seland Newydd ei 'Chyllideb Llesiant' (Llywodraeth Seland Newydd, 2021) gyda phontio teg wedi'i restru fel un o'r pum amcan 'llesiant parhaus' a nodir yn y gyllideb, 'gan gefnogi pontio i economi gynaliadwy ag allyriadau isel sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, wrth adfer o COVID-19' (Llywodraeth Seland Newydd, 2021). Dewiswyd yr amcanion gan ddefnyddio dull cydweithredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gyfuno tystiolaeth o Fframwaith Safonau Byw presennol y Trysorlys â chyngor gan arbenigwyr o fewn y sector a phrif gynghorwyr gwyddoniaeth y llywodraeth. Mae'r Fframwaith Safonau Byw yn cynnwys ystod eang o ddangosyddion ar gyfer canlyniadau llesiant, gan ganolbwyntio ar bobl, y wlad a'r dyfodol.**

**Yn 2020, cyflwynodd y Bil Diwygio Cyllid Cyhoeddus (Llesiant) ofynion newydd i Lywodraeth Seland Newydd adrodd yn flynyddol ar yr amcanion llesiant o**

**fewn y gyllideb, ac un ohonynt yw pontio teg, ac i'r Trysorlys adrodd o bryd i'w gilydd ar gyflwr llesiant yn Seland Newydd. O fewn ei fframwaith llesiant, mae Seland Newydd hefyd wedi ceisio deall sut y gellir defnyddio ysgogiadau polisi a strategaethau i fynd i'r afael â chyfiawnder drwy bontio teg. Sefydlodd Cynllun Rheoli Adnoddau Hapu/Iwi ym Mae Plenty ofynion deddfwriaethol i sicrhau bod materion rheoli adnoddau sy'n bwysig i bobl frodorol leol yn cael eu hystyried. Roedd cynnwys pobl frodorol wrth wneud penderfyniadau yn dangos cyfiawnder cydnabod, gweithdrefnol a dosbarthiadol (Krawchenko a Gordon, 2021).**

## Mabwysiadu pontio teg

Er mwyn sicrhau bod pontio teg mor effeithiol â phosibl ar ôl ei fabwysiadu, ni ddylai gael ei ystyried yn 'ychwanegiad' i bolisïau hinsawdd ond dylai gael ei 'sefydlu fel blaenoriaeth weithredol' (Abram ac eraill, 2022: 1035). Yn yr Alban, mae polisi pontio teg wedi'i ymwreiddio o fewn y system wleidyddol ddomestig drwy Ddeddf Newid Hinsawdd 2019. Mae'r Alban wedi cydnabod yn ehangach newid tuag at ymgorffori economeg llesiant mewn polisïau, megis o fewn ei Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol, sy'n nodi canlyniadau cenedlaethol a fesurir gan 'ddangosyddion cenedlaethol' llesiant. Mae gan Lywodraeth yr Alban weledigaeth i greu economi llesiant, sy'n cael ei disgrifio fel 'system economaidd sy'n rhoi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol wrth ei chraidd' (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Economi, 2022). Fel rhan o'i gweledigaeth, mae Monitor Economi Llesiant wedi'i ddatblygu i fesur sut mae economi'r Alban yn cyfrannu at wella meysydd megis iechyd, cydraddoldeb, cynaliadwyedd amgylcheddol a gwaith teg. Bydd data a gesglir o'r Monitor Economi Llesiant yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol a metrigau traddodiadol eraill sy'n bodoli eisoes i arwain y gwaith o 'wneud penderfyniadau economaidd yn y dyfodol, gan ein helpu i gyflawni pontio teg i economi llesiant, gylchol natur-gadarnhaol a sero net sy'n seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb, cynaliadwyedd, ffyniant a chydnerthedd (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Economi, 2022: 2-3).

Yn yr un modd, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi datblygu Dangosfwrdd Mesurau Llesiant Cenedlaethol sy'n rhoi trosolwg gweledol o gynnydd y DU yn erbyn deg dangosydd llesiant. Mae llesiant yn cael ei ddisgrifio fel 'sut rydym yn gwneud fel unigolion, fel cymunedau ac fel cenedl, a pha mor gynaliadwy yw hyn ar gyfer y dyfodol' (SYG, 2019). Mae meysydd bywyd yn cynnwys llesiant personol, sy'n mesur boddhad bywyd, hapusrwydd a llesiant meddyliol, a'r amgylchedd, sy'n mesur cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a'r ynni a ddefnyddir o fewn y DU o ffynonellau adnewyddadwy.

Ochr yn ochr â Chymru, mae'r Alban a Seland Newydd wedi troi at ddefnyddio llesiant fel fframwaith ar gyfer cydweithio. Mae partneriaeth Llywodraethau'r Economi Llesiant yn gydweithrediad gan lywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n hyrwyddo rhannu arbenigedd ac arferion polisi trosglwyddadwy. Mae'r bartneriaeth ar hyn o bryd yn cynnwys Cymru, yr Alban, Seland Newydd, Gwlad yr Iâ a'r Ffindir. Nod Llywodraethau'r Economi Llesiant yw symud ymlaen tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a datblygu 'dulliau polisi arloesol sydd â'r nod o wella llesiant drwy ddealltwriaeth ehangach o rôl economeg' (Llywodraeth yr Alban, 2021).

# Casgliad

Mae ymagwedd pontio teg yn dangos ymrwymiad i degwch a chynwysoldeb ym maes polisi datgarboneiddio. Fodd bynnag, mae'r ymchwil hon wedi dangos nad oes cytundeb cyffredinol ar ddiffiniad y term, yn rhannol am ei fod yn cael ei gydnabod bod cyflawni polisïau datgarboneiddio teg a chynhwysol yn llwyddiannus yn dibynnu ar gyd-destunau cenedlaethol a lleol.

Yn ymarferol, mae cryn amrywiaeth mewn ymagweddau at bontio teg ledled y byd, wrth i'r cenhedloedd ymrafael â gofynion yr argyfwng hinsawdd ar bolisi cyhoeddus. Er y derbynnir nad yw ymagwedd 'un maint i bawb' yn briodol ar gyfer cyd-destunau gwahanol, mae'r enghreifftiau rhyngwladol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn amlygu nodweddion cyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys creu fframwaith cydlynu, cynllunio hirdymor, adeiladu capasiti a chyllid i gefnogi gweithredu. Mae ymagwedd De Affrica yn tynnu sylw at y ffaith y dylai rhanddeiliaid fod yn rhan o'r broses o lunio polisïau er mwyn annog cefnogaeth i'r gwaith pontio. Fel ein bod wedi gweld yn yr enghreifftiau rhyngwladol, mae'r gallu i ffurfio partneriaethau rhwng llywodraethau cenedlaethol, llywodraethau lleol, dinasyddion a'r sector busnes yn allweddol i sicrhau bod polisïau'n llwyddiannus. Mae'n debygol y bydd hyn yn wir yng Nghymru hefyd. Yn sail i'r gydnabyddiaeth o'r angen am bartneriaeth mae'r syniad cysylltiedig, weithiau'r syniad amgen, o 'bontio teg'.

Mae'r adroddiad wedi archwilio'r elfennau gwahanol o gyfiawnder sy'n sail i bontio teg. Mae wedi dangos bod gwreiddiau'r cysyniad o bontio teg yn gysylltiedig yn agos â chyfiawnder amgylcheddol, ond mae 'pontio teg' yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel term cyfuno sy'n ceisio ymgorffori syniadau cysylltiedig o gyfiawnder ynni a chyfiawnder hinsawdd. Nid yw'n cynnwys pob pryder amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol, ac ni ddylai wneud felly. Mae ymchwil wedi awgrymu bod cyfuno'r mathau hyn o gyfiawnder o fewn ymagwedd at bontio teg yn caniatáu fframwaith

mwy cynhwysol ac yn rhoi cyfle i hyrwyddo tegwch. Trafodwyd cyfiawnder pontio'r cenedlaethau hefyd o fewn ymagwedd pontio teg i sicrhau bod hawliau gwahanol genedlaethau yn y broses bontio yn gyfartal.

Mae enghreifftiau rhyngwladol sy'n dangos mabwysiadu pontio teg o fewn fframwaith llesiant. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn darparu set arweiniol o egwyddorion ar gyfer fframwaith llesiant. Mae hon yn honni mai dim ond wrth ystyried sut y gellir bodloni'r holl amcanion gyda'i gilydd (OECD, 2019) y dylid gwneud penderfyniadau ynghylch sut i gyflawni amcanion llesiant. O fewn cyd-destun cenedlaethol, mae'r Alban a Seland Newydd wedi defnyddio dulliau tebyg i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i integreiddio pontio teg o fewn polisi domestig. Mae'r enghreifftiau yn yr adroddiad hwn yn dangos, er mwyn bod yn fwyaf effeithiol wrth ei fabwysiadu, ei bod yn bwysig i bontio teg fod yn rhan annatod o ystod eang o bolisïau fel blaenoriaeth weithredol wrth gynllunio a gweithredu. Ar ben hynny, mae profiad rhyngwladol yn awgrymu bod dulliau cyd-destun penodol sy'n seiliedig ar leoedd yn bwysig ar gyfer sicrhau llesiant ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sail i ystod o bolisïau ac arferion Llywodraeth Cymru gyda ffocws ar lesiant a datblygu cynaliadwy, mae profiad rhyngwladol yn awgrymu bod y Ddeddf yn darparu sylfaen addas ar gyfer mabwysiadu ymagwedd pontio teg yng Nghymru. Mae nifer o'r dulliau pontio teg a drafodwyd o fewn yr adroddiad hwn yn addas o fewn y fframwaith hwn ac mae'r ymchwil yn awgrymu bod y dulliau hyn yn cyd-fynd â nodau a bwriadau llesiant sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd dadansoddi dangosyddion y Ddeddf a chynnydd tuag at dargedau yn bwysig wrth ddatblygu'r ddealltwriaeth hon ymhellach.

Er bod cael Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel ymagwedd at bontio teg yn bwysig wrth osod y sylfaen, bydd y ffordd y mae'n cael ei weithredu yn hanfodol wrth benderfynu ar ei lwyddiant. Bydd nodi'r egwyddorion arweiniol mwyaf priodol i helpu i lunio a gweithredu cynlluniau datgarboneiddio Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y pontio'n goresgyn yr anghydraddoldebau presennol rhwng unigolion, cymunedau a busnesau. Bydd cyflwyno ymagweddau polisi arloesol i sefydlu addasiadau ym mholisïau Llywodraeth Cymru hefyd yn bwysig (gweler Parken ac eraill, ar ddod).

# Cyfeiriadau

Abram, S., Atkins, E., Dietzel, A., Jenkins, K. Kiamba, L. a Kirshner, J. (2022). **Just Transition: A whole-systems approach to decarbonisation**. Climate Policy 22: 1033-1049.

Atteridge, A. a Strambo, C. (2020). **Seven principles to realize a just transition to a low-carbon economy**. Stockholm: Sefydliad yr Amgylchedd Stockholm.

Beuermann, C. a Brandemann, V. (2021). **Just Transition in national climate plans: An analysis of case studies from South Africa, Costa Rica and Ukraine**. Sefydliad Friedrich Ebert. Adalwyd o **https://library.fes.de/pdf-files/iez/18464.pdf**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Economi. (2022). **Ministerial foreword: Wellbeing economy monitor**. 24 Mehefin 2022. Llywodraeth yr Alban. Adalwyd o **https://www.gov.scot/publications/wellbeing-economy-monitor/**

Client Earth. (2021). **What is environmental justice?**. Client Earth Communications. Adalwyd o **https://www.clientearth.org/latest/latest-updates/stories/what-is-environmental-justice/**

Connolly, K. (2022). **5 Lessons from South Africa's Just Transition Journey**. Sefydliad Adnoddau'r Byd. Adalwyd o **https://www.wri.org/insights/5-lessons-south-africas-just-transition-journey**

Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. (2021). **Net Zero Strategy: Build Back Greener**. Llundain: Llywodraeth y DU. Adalwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1033990/net-zero-strategy-beis.pdf**.

Emden, J., Ahmad, H., Murphy, L. a Cameron, C. (2020). **Lessons Learned: Just Transitions from Around the World**. Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus. Adalwyd o **https://www.ippr.org/files/2020-12/lessons-learned-dec2020.pdf**

Emden, J. a Murphy, L. (2019). **A Just Transition: Realising the opportunities of decarbonisation in the North of England.** Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus. Adalwyd o: https://www.ippr.org/files/2019-03/energy-skills-march19.pdf

Y Comisiwn Ewropeaidd. (2019). **The Just Transition Mechanism: making sure no one is left behind**. Adalwyd o **https://ec.europa.eu/info/strategy/priorities-2019-2024/european-green-deal/finance-and-green-deal/just-transition-mechanism_en**

Fearon, S. a Barry, J. (2021). **Mapping a Just Energy Transition in Northern Ireland**. Belfast: Prifysgol y Frenhines, Belfast.

Cyfeillion y Ddaear. (2022). **What is climate justice?**. Cyfeillion y Ddaear. Adalwyd o **https://climate.friendsoftheearth.uk/resources/what-climate-justice**

Llywodraeth Iwerddon. (2021). **The Climate Action Plan: Securing Our Future**. Dulyn: Llywodraeth Iwerddon.

Llywodraeth Seland Newydd. (2021). **Wellbeing Budget 2021: Securing our Recovery**. Llywodraeth Seland Newydd. Adalwyd o **https://www.treasury.govt.nz/publications/wellbeing-budget/wellbeing-budget-2021-securing-our-recovery-html#section-4**

Heffron, R. (2021). **What is the 'Just Transition'?**. Yn: Achieving a Just Transition to a Low-Carbon Economy. Llundain: Palgrave Macmillan: 9-19.

Hirsch, T., Matthess, M. a Funfgelt, J. (2017). **Guiding Principles and Lessons Learnt for a Just Energy Transition in the Global South.** Sefydliad Friedrich Ebert. Adalwyd o **https://library.fes.de/pdf-files/iez/13955.pdf**

Hirsch, T. (2018). **Lessons Learnt and Guiding Principles for a Just Energy Transition in the Global South.** Just Transition Research Collaborative. Adalwyd o **https://medium.com/just-transitions/hirsch-b2826c0bf2c5**

Indigenous Environmental Network [IEN]. (2017). **Indigenous principles of just transition.** Indigenous Environmental Network. Adalwyd o **http://www.ienearth.org/wp-content/uploads/2017/10/IENJustTransitionPrinciples.pdf**

Initiative for Energy Justice. (2019). **Initiative for Energy Justice**. Adalwyd o **https://iejusa.org**

Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. (2022). **Frequently Asked Questions on just transition**. Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Adalwyd o **https://www.ilo.org/global/topics/green-jobs/WCMS_824102/lang—en/index.htm**

Jafry, T. (2021). **Pontio Cyfiawn i'r Hinsawdd yng Nghymru: Datblygu Fframwaith ar gyfer Gweithredu.** Briff Polisi. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o **https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/cyflawni-trawsnewid-cyfiawn-yng-nghymru/**

Just Transition Alliance [JTA]. (2022). **What is Just Transition?**. Just Transition Alliance. Adalwyd o **http://jtalliance.org/what-is-just-transition/#**

Just Transition Research Collaborative. (2018). **Mapping Just Transition(s) to a low-carbon world**. Genefa: Sefydliad Ymchwil y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygiad Cymdeithasol (UNRISD).

Krawchenko, T. a Gordon, M. (2021). **How Do We Manage a Just Transition? A Comparative Review of National and Regional Just Transition Initiatives**. Sustainability. 13(11): 1-16.

MacBride-Stewart, S. a Parken, A. (2021). **Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: Meysydd gweithredu mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffig**. Adalwyd o: **https://phw.nhs.wales/publications/publications1/anghydraddoldeb-yng-nghymrur-dyfodol-meysydd-gweithredu-mewn-gwaith-hinsawdd-a-newid-demograffig/**.

Martinez-Alier, J. (2012). **Environmental Justice and Economic Degrowth: An Alliance between Two Movements**. Capitalism Nature Socialism. 23 (1): 51-73.

McCauley, D. a Heffron, R. (2018). **Just transition: Integrating climate, energy and environmental justice**. Energy Policy. 119: 1-7.

Nesom, S. a MacKillop, E. (2021). **What matters in the implementation of sustainable development policies? Findings from the Well-Being of Future Generations (Wales) Act 2015**. Journal of Environmental Policy and Planning. 23(4): 432-445.

Nesom, S. a Tilley, H. (2021). **Llesiant ac effaith Covid-19 a Brexit.** Papur Hysbysu Tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o **https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/briffiadau-llesiant-i-fyrddau-gwasanaethau-cyhoeddus/**

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). (2019). **Accelerating climate action: Refocusing Policies through a Well-being Lens**. *OECD*. Paris.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). (2019). **Measures of National Well-being Dashboard.** *Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).* Adalwyd o **https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/articles/measuresofnationalwellbeingdashboard/2018-04-25**

Parken, A., MacBride-Stewart, S., Ashworth, R, a Minto, R. (ar ddod). **Equality and Fair Work for Just Transition to Net Zero**. Adroddiad ymchwil i Lywodraeth Cymru, Prosiect Prif Ffrydio Cydraddoldeb.

Pellegrini-Masini, G., Pirni, A., Maran, S. a Klockner, C. (2020). **Delivering a Timely and Just Energy Transition: Which policy research priorities?** Environmental Policy and Governance. 30(6): 293-305.

Pianta, M. a Lucchese, M. **Rethinking the European Green Deal: An Industrial Policy for a Just Transition in Europe**. Review of Radical Political Economics. 52(4): 633–641.

Piggot, G., Boyland, M., Down, A. a Torre, A. R. (2019). **Realizing a just and equitable transition away from fossil fuels.** Stockholm: Sefydliad yr Amgylchedd Stockholm.

Pinker, A. (2020). **Just transitions: a comparative perspective***.* Aberdeen: Sefydliad James Hutton a SEFARI Gateway.

Price, J. (2019). **Pam 'Trawsnewid Cyfiawn'? Datgarboneiddio a chyfiawnder economaidd.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o **https://www.wcpp.org.uk/cy/sylwebaeth/pam-trawsnewid-cyfiawn-datgarboneiddio-a-chyfiawnder-economaidd/**

Price, J., Roberts, M.A., a Bristow, D. (2021). **Tuag at Drawsnewid Cyfiawn yng Nghymru.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. **https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/cyflawni-trawsnewid-cyfiawn-yng-nghymru/**

Schlosberg, D. (2009). **Defining Environmental Justice: Theories, Movements, and Nature*.*** Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Llywodraeth yr Alban. (2021). **Llywodraethau Llesiant. Llywodraeth yr Alban.** Adalwyd o **https://www.gov.scot/groups/wellbeing-economy-governments-wego/**

Serafimova, T. Bys, M., a Montero, J. (2022). **Modal shift: The moment of truth. Main takeaways and lessons learnt from the European Year of Rail**. Adalwyd o: **https://cadmus.eui.eu/bitstream/handle/1814/74040/PB_2022_11_FSR.pdf?sequence=1&isAllowed=y**

Silva, L., Price, J., a Tilley, H. (2022). **Sgiliau o ran cael Proses Bontio Gyfiawn** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o **https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/sgiliau-o-ran-cael-proses-bontio-gyfiawn/**

Smith, S. (2017). **Just transition: A report for the OECD.** Adalwyd o: **https://www.oecd.org/env/cc/g20-climate/collapsecontents/Just-Transition-Centre-report-just-transition.pdf**.

Swilling, M., Musango, J. a Wakeford, J. (2016). **Developmental States and Sustainability Transitions: Prospects of a Just Transition in South Africa.** Journal of Environmental Policy & Planning. 18 (5): 650-672.

TUC Cymru. (2020). **A green recovery and a just transition**. Caerdydd: TUC Cymru. Wang, X., a Lo, K. (2021). **Just transition: A conceptual review**. Energy Research and Social Science. 82, 102291: 1-11.

Weber, G. a Cabras, I. (2021). **Environmental Justice and Just Transition in the EU's Sustainability Policies in Third Countries: The Case of Colombia.** The International Spectator. 56: 119-137.

Llywodraeth Cymru. (2015a). **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Adalwyd o https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/pdfs/anaw_20150002_we.pdf

Llywodraeth Cymru. (2015b). **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion**. Adalwyd o https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/6/3/1623854576/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf

Llywodraeth Cymru. (2019). **Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy: Adroddiad Atodol i Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon o gynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy 2030.** Llywodraeth Cymru. Adalwyd o https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adroddiad-atodol-i-adolygiad-y-du-o-gynnydd-tuag-at-y-nodau-datblygu-cynaliadwy-2030_1.pdf

Llywodraeth Cymru. (2021a). **Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2: 2021-2025.** Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2021b). **Y Rhaglen Lywodraethu: diweddariad.** Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Comisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygu. (1987). **Our Common Future.** Rhydychen. Gwasg Prifysgol Rhydychen.

# Atodiad

Mae adroddiadau diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban (Pinker, 2020) a Sefydliad Amgylchedd Stockholm (Piggot ac eraill, 2019) yn archwilio astudiaethau achos o brosesau ac egwyddorion wedi'u halinio â phontio teg, ochr yn ochr ag enghreifftiau ychwanegol, a ddangosir yn Nabl 1 isod.

### Tabl A1: Polisïau pontio teg rhyngwladol

| Gwlad/rhanbarth | Polisïau | Disgrifiad | Mecanweithiau cymorth | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Alberta, Canada** | Cronfa Pontio'r Gweithlu Glo<br><br>Cronfa Pontio'r Gymuned Glo | Wedi'u bwriadu i gefnogi geithwyr glo a llywodraethau lleol mewn ardaloedd sydd wedi eu heffeithio gan gynllun y llywodraeth i ddileu cynhyrchu trydan gan ddefnyddio glo yn raddol. | Gweithwyr: cwnsela gyrfa, cymorth dysgu i ailhyfforddi, grantiau i bontio'r bwlch rhwng diweithdra ac ymddeoliad, a chymorth adleoli<br><br>Llywodraeth leol: grantiau ar gyfer astudiaethau am effeithiau hirdymor (cymdeithasol ac economaidd), cefnogaeth i raglenni cynllunio economaidd a datblygu busnes hirdymor | Piggot ac eraill, 2019 |
| **Sbaen** | Cytundeb Fframwaith ar gyfer Pontio Teg i Byllau Glo a Datblygu'r Rhanbarthau Mwyngloddio yn Gynaliadwy ar gyfer y | Cynllun gweithredu i gefnogi gweithwyr ac ardaloedd sydd wedi eu heffeithio gan gynlluniau i gau pyllau glo | Gweithwyr: rhaglenni ailhyfforddi wedi'u hanelu at adleoli i ddiwydiannau gwyrdd, cronfeydd ymddeol cynnar a chymorth cymdeithasol | Piggot ac eraill, 2019 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfnod 2019-2027 | | Llywodraeth/busnesau lleol: cyllid ar gyfer mentrau busnes gyda'r bwriad o ddatblygu rhanbarthau mwyngloddio a chynlluniau ar gyfer adfer rhanbarthau mwyngloddio yn amgylcheddol | |
| **Tsieina** | Darpariaethau cau pyllau glo yn y 13eg Cynllun Pum Mlynedd ar gyfer Datblygu'r Diwydiant Glo, 2016-2020 | Strategaeth i gapio allbwn glo a chynyddu effeithlonrwydd mwyngloddio. Yn amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer cynllun i gau pyllau glo. | Gweithwyr: ailhyfforddi a chymorth ceiswyr gwaith, cefnogaeth diweithdra<br><br>Llywodraeth leol: cyllid a chymorth i ailddatblygu ac adfer rhanbarthau mwyngloddio yn amgylcheddol | Piggot ac eraill, 2019 |
| **Yr Alban** | Cronfa Pontio Gweithwyr Olew | Cyllid i gefnogi gweithwyr olew a nwy i drosglwyddo i rolau newydd wrth i gynhyrchu olew Môr y Gogledd gael ei leihau | Gweithwyr: arian i ailhyfforddi | Piggot ac eraill, 2019 |
| **UDA** | Strategaeth Canol y Ganrif<br><br>Partnerships for Opportunity and Workforce | Strategaeth ddatgarboneiddio genedlaethol | Darparu cymorth wedi'i dargedu i hwyluso pontio teg | Pinker, 2020 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | and Economic Revitalization Plan (rhaglen POWER) | Menter gymorth i gymunedau yr effeithir arnynt gan ddirywiad y diwydiant glo | Gweithwyr: cymorth iechyd ac ymddeoliad<br><br>Ardal leol: Ailddatblygu ardal y mwyngloddiau ac adfer amgylcheddol | |
| **Canada** | Tasglu ar Bontio Teg i Weithwyr a Chymunedau Pŵer Glo Canada | Comisiwn i gasglu gwybodaeth am effeithiau'r pontio a nodi atebion i gefnogi pontio teg | Pum mlynedd o gyllid ar gyfer addasu cymunedol, datblygu sgiliau ac arallgyfeirio economaidd | Pinker, 2020 |
| **Yr Almaen** | Y Comisiwn Glo | Comisiwn i hwyluso pontio teg wrth i lo gael ei ddileu'n raddol | Iawndal i ddefnyddwyr ynni am brisiau ynni uwch, a chyllid am 'fesurau pontio' | Pinker, 2020 |
| **Periw** | REDD+ | Rheoliadau i gefnogi cynlluniau gwrthbwyso carbon REDD | Cynllun cymhelliant i warchod coedwigoedd gan gymunedau lleol | Pinker, 2020 |
| **Norwy** | Strategaeth ar gyfer Cystadleurwydd Gwyrdd | Strategaeth yn amlinellu'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o ddatgarboneiddio | Amrywiaeth o argymhellion ar sut y gall Norwy gyflawni sero net, gan gynnwys buddsoddi mewn diwydiannau newydd a gwyrdd | Pinker, 2020 |
| **Gogledd Iwerddon** | Bil Newid Hinsawdd | Deddfwriaeth hinsawdd yn cyflwyno egwyddor pontio teg | Wedi sefydlu comisiwn pontio teg a chynghorydd hinsawdd ac yn darparu cronfa pontio | Fearon a Barry, 2021 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | teg ar gyfer amaethyddiaeth | |
| **Y DU** | Net Zero Strategy: Build Back Greener | Strategaeth ar gyfer pontio i allyriadau sero net | Mae'r strategaeth wedi fframio arloesedd a sgiliau i gefnogi targed sero net | Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol , 2021 |
| **Iwerddon** | Y Cynllun Gweithredu Hinsawdd | Strategaeth yn nodi camau gweithredu sy'n ofynnol i gyrraedd y targed o allyriadau sero net erbyn 2050 | Arian ar gyfer cefnogaeth i weithwyr, ôl-osod tai, adeiladu trafnidiaeth gyhoeddus newydd a gweithredoedd eraill i gefnogi pontio teg | Llywodraeth Iwerddon, 2021 |
| **Y Comisiwn Ewropeaidd** | Llwyfan Pontio Teg<br><br>Mecanwaith Pontio Teg | Pwynt mynediad ar gyfer cefnogaeth, gwybodaeth a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â phontio teg a'r Mecanwaith Pontio Teg ar gyfer aelodau'r UE | <u>Llwyfan:</u> llwyfan cyfnewid gwybodaeth<br><br><u>Mecanwaith:</u> cyfres o gronfeydd i gefnogi gweithgareddau wedi'u halinio â phontio teg | Y Comisiwn Ewropeaidd, 2019 |
| **Awstria** | Tocyn hinsawdd | Mae teithio ar y rheilffordd ar gael am ychydig dros £2.50 y dydd gyda'r tocyn newydd hwn, sydd wedi'i gynllunio i wneud newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy yn | Mae prisiau tocynnau yn cael eu gorfodi yn ôl y gyfraith, ac yn cael eu cefnogi'n economaidd gan y llywodraeth ganolog | Serafimova ac eraill, 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | fforddiadwy i ddinasyddion | | |

## Manylion yr Awduron

Mae **Charlotte Morgan** yn Gynorthwyydd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Isabelle Carter** yn Brentis Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Helen Tilley** yn Uwch-gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Tom Haines-Doran** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Emma Taylor-Collins** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Tom Haines-Doran**